**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# P-03-262 Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8421
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# P-03-262 Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Deisebau**
Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar 15 Mehefin 2011. Ei rôl yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Rhaid i'r deisebau fod ar faterion y mae gan y Cynulliad y pŵer i weithredu arnynt. Mae'r broses ddeisebau yn galluogi'r cyhoedd i amlygu materion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Cynulliad. Mae ei swyddogaethau penodol wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 23.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**William Powell (Cadeirydd)**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Bethan Jenkins**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Roedd yr Aelodau Cynulliad canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor Deisebau yn ystod y gwaith hwn.**



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Andrew RT Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**Mike German**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Dwyrain De Cymru



**Veronica German**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Dwyrain De Cymru



**Val Lloyd**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**1. Cefndir** ..... 7

**2. Uchelgeisiau'r deisebwyr** ..... 8

**3. Sefydliadau Heddwch ledled Ewrop** ..... 12

Sefydliad Heddwch Fflandrys ..... 12

Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Catalonia ..... 12

Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt ..... 13

**4. Gwersi allweddol gan sefydliadau heddwch eraill** ..... 14

Annibyniaeth wleidyddol ..... 14

Cyllid ..... 15

Manteision sy'n deillio o seneddau rhanbarthol yn sefydlu sefydliadau heddwch ..... 16

**5. Barn y rhanddeiliaid** ..... 17

**6. Barn y Pwyllgor** ..... 18

**Cyfarfodydd** ..... 20

**Tystion** ..... 21

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... 22

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn parhau i drafod amrywiaeth eang o ddeisebau, ar draws holl bwerau datganoledig y Cynulliad. Cyflwynwyd y ddeiseb hon yn galw am sefydlu Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute i'r pwyllgor blaenorol yn 2009. Cymerodd y pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth lafar ar y ddeiseb. Gwnaethom adeiladu ar y dystiolaeth hon wrth drafod y ddeiseb ymhellach.

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute ond nid ydym wedi penderfynu ar fanylion sut y byddai Academi o'r fath yn cael ei chreu. Yn ein barn ni, gallai corff o'r fath helpu i gyfrannu at ddatblygu heddwch yn ei ystyr mwyaf eang yng Nghymru a byddai'n cyfrannu at waith y Cynulliad a'r Llywodraeth. Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi ei chael wedi ein darbwyllo y byddai gwerth mewn rhoi ystyriaeth bellach i rôl, swyddogaeth a chwmpas sefydliad o'r fath. Rydym yn cydnabod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yn gwerthfawrogi'r ffaith efallai nad oes gan Lywodraeth Cymru'r cyllid i ymgymryd â'r gwaith hwn ond gallai helpu i hwyluso'r gwaith archwiliadol.

Hoffem ddiolch i'r deisebwyr ac i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i'n helpu yn ein trafodaethau ar y ddeiseb hon.

## Argymhelliad y Pwyllgor

Mae argymhelliad y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w weld isod, yn y drefn y mae'n ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau:

**Recommendation 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau pellach rhwng rhanddeiliaid o fewn y gymuned academaidd a chymdeithas sifil i sicrhau y gellid gwneud gwaith cwmpasu pellach ar Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute. (Tudalen 19)

# 1. Cefndir

1. Ym mis Medi 2009, cafodd y Pwyllgor Deisebau blaenorol ddeiseb a oedd wedi'i arwyddo gan 1,525 o bobl. Cyflwynwyd y ddeiseb gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Cynefin y Werin, Cymdeithas y Cymod a CND Cymru.

2. Roedd y ddeiseb yn datgan

> "Rydym ni'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd ac i edrych pa mor ymarferol fyddai i Gymru gael Sefydliad Heddwch i edrych ar heddwch a hawliau dynol, tebyg i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau gwladwriaethau yn Fflandrys, Catalonia a mannau eraill yn Ewrop."[1]

3. Cafodd y Pwyllgor Deisebau blaenorol dystiolaeth lafar gan y deisebwyr, Sefydliad Heddwch Fflandrys a Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Catalonia. Hefyd, bu'r Pwyllgor yn trafod tystiolaeth ysgrifenedig gan Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt.

4. Gan adeiladu ar hynny, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus ysgrifenedig, gyda 56 o bobl a sefydliadau yn ymateb. Hwn oedd yr ymateb mwyaf erioed i un o ymgynghoriadau'r Pwyllgor Deisebau.

5. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi'r dystiolaeth y buom ni a'r Pwyllgor Deisebau blaenorol yn ei thrafod ac yn amlinellu beth yr ydym yn credu y dylai fod y camau nesaf.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, P-03-262, Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, 28 Hydref 2009 [fel ar 2 Awst 2013]

## 2. Uchelgeisiau'r deisebwyr

6. Nododd y deisebwyr gyfres o gynigion amlinellol ar gyfer Academi Heddwch. Ni ddarparwyd cynigion manwl oherwydd roedd y deisebwyr eisiau trafodaeth ehangach am rôl a swyddogaeth posibl Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute.[2] Pwysleisiodd y deisebwyr eu cred y byddai angen i'r academi edrych ar heddwch yn yr ystyr mwyaf eang. Dywedodd Jill Evans ASE wrthym

> "Most people would assume that a peace institute would be concerned with issues of war and peace in the traditional sense. However, we are looking at something much more than that: a body that would promote peace in all aspects of our society."[3]

7. Roedd y sefydliadau heddwch y cawsom dystiolaeth lafar ganddynt yn cefnogi'r safbwynt hwn, fel yr oedd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law.

8. Yn ôl y deisebwyr, dyma'r prif egwyddorion a ddylai fod yn sail i Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute:

- Perthynas gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu gwerthusiad annibynnol o effeithiau posibl ei weithgarwch a'i benderfyniadau o ran cynnal heddwch a hawliau dynol;
- Archwilio'r effaith a gaiff penderfyniadau polisi amddiffyn a thramor ar Gymru – er enghraifft, hyfforddi milwyr tramor a allai fod yn ymwneud â chamdrin hawliau dynol;
- Cyfeir-bwynt ac adnoddau ar gyfer pobl a mudiadau yn darparu gwybodaeth am heddwch, diarfogi, datrys gwrthdaro a materion hawliau dynol gyda sianelau i ganiatáu ymholiadau i'r fasnach arfau, hawliau dynol, diarfogi niwclear, cynnal y Cytundeb Heddwch Rhyngwladol, ac ati.;
- Perthynas uniongyrchol â chyrff anllywodraethol, asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, sefydliadau ac academïau heddwch eraill, a rhwydweithiau â mudiadau tebyg sy'n cyfrannu at wybodaeth

---

[2] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [24-29] 23 Chwefror 2010
[3] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [9] 23 Chwefror 2010

ryngwladol am hyrwyddo heddwch a gweithgarwch ar gyfer hyrwyddo heddwch;

- Bydd rhyddid academaidd yn angenrheidiol er mwyn i'r Academi weithredu'n annibynnol fel awdurdod amhleidiol ar faterion heddwch;
- Darpariaeth addysgol o ran astudiaethau heddwch, datrys gwrthdaro trwy ddulliau di-drais, ymwybyddiaeth o hawliau dynol; creu perthnasau rhyngwladol trwy gyswllt diwylliannol, cytundebau cydweithredol, ac ati;
- Statws ymgynghorol o ran Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru;
- Rhyddid i chwilio am gyllid annibynnol trwy ymchwil a gomisiynir ac i ddefnyddio'r arian a'r adnoddau ym maes creu heddwch.[4]

9. Dywedodd y deisebwyr fod nifer o enghreifftiau yng Nghymru a allai gynnig model ar gyfer Sefydliad Heddwch, fel Cynnal Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant.[5] Fodd bynnag, roeddent yn gyndyn o ddarparu mwy o fanylion am beth yr oeddent yn credu dylai fod rôl, swyddogaeth a gweithgareddau Academi Heddwch. Eu blaenoriaeth oedd ceisio cefnogaeth mewn egwyddor ar gyfer sefydlu academi heddwch.

10. Drwy gydol y broses, mae'r deisebwyr wedi bod yn glir am y ffaith nad ydynt yn gofyn am arian ar hyn o bryd, neu hyd yn oed ymrwymiad i symud tuag at sefydlu academi heddwch, ond eu bod am ymchwil pellach i faterion ymarferol a fyddai'n gysylltiedig â sefydlu academi o'r fath.

11. Oherwydd nad yw'r deisebwyr wedi darparu cynigion manwl, roedd yn anodd i ni, yn ogystal â'r Pwyllgor Deisebau blaenorol, ffurfio barn ar y ddeiseb. Roedd hwn yn fater a godwyd gan rai o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Dywedodd Marc Pollentine

> "…the current proposal raises more questions than answers, and lacks sufficient detail in terms of how the Institute would be constituted and mandated….The detail is absolutely vital to the principle not least because very few principles command

---

[4]Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, PET(3)-15-09: Papur Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, 10 Tachwedd 2009 [fel ar 2 Awst 2013]

[5] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [11] 23 Chwefror 2010

common understanding of their practical meaning and application."[6]

12. Rydym yn cytuno, ac er ein bod yn deall mai'r rheswm y cyflwynwyd y ddeiseb oedd i annog pobl i gefnogi'r cysyniad, rydym yn credu y byddai'r ddeiseb hon wedi symud drwy'r system yn gynt petai'r deisebwyr wedi darparu rhagor o fanylion.

13. Er nad oeddent yn canolbwyntio ar gael arian, dywedodd y deisebwyr y byddai academi heddwch yn gost effeithiol oherwydd y byddai'n ymgymryd â swyddogaeth unigol ac y byddai'n ychwanegu gwerth at allu'r Cynulliad i wneud penderfyniadau.[7]

14. Rydym yn gwybod ar sail sgyrsiau anffurfiol â'r deisebwyr fod safbwyntiau gwahanol ar ariannu o fewn y grŵp. Roedd rhai'n teimlo na ddylid derbyn cyllid gan unrhyw un y gallai fod yn destun gwaith craffu gan yr academi heddwch. Roedd gan eraill agwedd fwy hamddenol tuag at y mater hwn.

15. Roedd rhywfaint o ddryswch pan wnaethom ddechrau gohebu â Llywodraeth Cymru am y ddeiseb hon. Roedd ei hymateb yn canolbwyntio ar agwedd academaidd y gwaith hwn, gan dynnu sylw at y posibilrwydd o brifysgolion yng Nghymru yn cydweithio i ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith hwn. Fodd bynnag, roedd y deisebwyr yn glir am y ffaith bod yr hyn sydd ganddynt mewn golwg llawer yn fwy eang nag astudiaeth academaidd syml.

> "With regard to research bodies, there is quite a lot of academic study, but it is very much buried in my view….It really is something in which the converted are talking to the converted, and the academics are talking to the academics. We want to see this being spread to the whole of society."[8]

16. Mae'r deisebwyr hefyd yn teimlo y byddai gan sefydliad o'r fath swyddogaeth o ran cydgysylltu, gan helpu i ddwyn ynghyd yr holl waith sy'n cael ei wneud ledled Cymru ac yn rhyngwladol.[9]

---

[6] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad PET(4) WPI 16 - Marc Pollentin [fel ar 2 Awst 2013]
[7] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [12] 23 Chwefror 2010
[8] Ibid [24]
[9] Ibid [25]

17. Mae cefnogaeth eang i'r egwyddor sylfaenol. Felly, fel y byddech yn disgwyl, cawsom amrywiaeth o safbwyntiau o ran beth fyddai Academi Heddwch Cymru/ Wales Peace Institute yn ei wneud a beth fyddai'r ffordd orau iddo weithredu. Mae'n amlwg bod angen rhoi ystyriaeth bellach i ba fath o rôl a swyddogaeth y gallai Academi o'r fath ei gael yng Nghymru.

# 3. Sefydliadau Heddwch ledled Ewrop

18. Er mwyn deall sut y gallai sefydliad heddwch weithredu, cymerodd y Pwyllgor Deisebau blaenorol dystiolaeth lafar a/neu ysgrifenedig gan dri o sefydliadau heddwch Ewrop: Sefydliad Heddwch Fflandrys; Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Catalonia a Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt. Rydym yn ymwybodol bod amrywiaeth o sefydliadau heddwch ledled Ewrop a gweddill y byd, ond canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y tri sefydliad hyn.

19. Er bod y sefydliadau hyn yn amrywio o ran maint, cwmpas, cyrhaeddiad, swyddogaeth ac oedran, roedd pob un ohonynt yn pwysleisio materion tebyg y dylid eu hystyried wrth sefydlu sefydliad heddwch.

**Sefydliad Heddwch Fflandrys**

20. Sefydlwyd Sefydliad Heddwch Fflandrys yn 2004 ar ôl i gymhwysedd dros drwyddedu'r fasnach dramor mewn arfau gael ei ddatganoli. Awgrymodd Senedd Fflandrys fod angen sefydliad o'r fath i gynghori ar y pwerau newydd hyn ac wrth i'r sefydliad ddatblygu, ehangwyd ei gylch gwaith i gynnwys cysylltiadau rhyngwladol, heddwch a chymdeithas, polemoleg ac amddiffyn cymdeithasol.[10]

21. Caiff y sefydliad ei ariannu'n llawn gan y senedd ond gall wneud cais am gyllid allanol. Mae'n parhau i fod yn hollol annibynnol ar y senedd, er bod ganddo rôl o ran cynghori'r senedd a'i fod yn cael ei ariannu ganddi. Mae ganddo dair prif dasg: dogfennu, gwneud ymchwil, cynghori a darparu gwybodaeth. Mae gan y ddau ohonynt fwrdd cyfarwyddwyr a chyngor gwyddonol.[11]

**Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Catalonia**

22. Fe'i sefydlwyd gan un o ddeddfau Senedd Catalonia yn 2007. Digwyddodd hyn o ganlyniad i waith ymgyrchu gan y mudiad heddwch a chymdeithas sifil yn fwy eang.

23. Mae ganddo dri phrif faes gwaith: gwaith ymchwil, sefydlu dulliau hyfforddi, annog diwylliant o heddwch ac ymyrryd mewn gwrthdaro dros dir er mwyn hwyluso datrysiadau heddychlon. Caiff ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Catalonia ond mae'n disgwyl ei ariannu gan gyrff

[10] Ibid [124]
[11] Ibid [124-129]

eraill hefyd yn y dyfodol. Er y caiff ei ariannu gan y Llywodraeth, mae ganddo berthynas agos â Senedd Catalonia ac mae'n rhaid iddo gyflwyno adroddiad ar ei waith a'i sefyllfa ariannol bob blwyddyn. Mae ganddo gorff llywodraethu sy'n cynnwys 12 o bobl: daw tri ohonynt o'r Llywodraeth a chaiff y naw arall eu hethol gan y Senedd.[12]

**Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt**

24. Fe'i sefydlwyd ym 1970 gan lywodraeth talaith Hesse. Yn wreiddiol, roedd yn canolbwyntio ar ymchwil sylfaenol ac nid oedd cysylltiad uniongyrchol â pholisi; fodd bynnag, mae hyn wedi newid dros amser. Mae'r rhan fwyaf o gyllid y sefydliad yn dod o dalaith Hesse a'r llywodraeth ffederal.[13]

25. Mae gan y sefydliad ddwy rôl:[14] mae'n ymgymryd â gwaith ymchwil a gwaith ymarferol. Mae hyn yn cynnwys datblygu opsiynau ar gyfer polisïau a bod yn ymgynghorydd blaenllaw i'r Llywodraeth Ffederal ar nifer o faterion. Y sefydliad yw'r prif gynghorydd yn yr Almaen ar faterion megis rheoli arfau, diarfogi ac atal twf mewn arfau niwclear.[15]

---

[12] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [17-38] 27 Ebrill 2010
[13] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, PET(3)-05-10: Papur 1, Atodiad A: sesiwn dystiolaeth: Sefydliad Heddwch Catalonia, 27 Ebrill 2010
[14] Ibid
[15] Ibid

# 4. Gwersi allweddol gan sefydliadau heddwch eraill

26. Er bod pob un o'r sefydliadau hyn wedi datblygu i raddau gwahanol, roedd yn ddiddorol nodi rhai themâu allweddol. Dylid cymryd hyn o ddifrif wrth roi ystyriaeth bellach i sefydlu sefydliad heddwch.

**Annibyniaeth wleidyddol**

27. Pwysleisiodd pob un o'r tri o sefydliadau heddwch y cawsom dystiolaeth gandddynt bwysigrwydd annibyniaeth. Er bod pob un o'r sefydliadau yn cael eu hariannu gan y llywodraeth ranbarthol berthnasol, maent yn annibynnol ar y rhai sy'n eu hariannu.

28. Roedd yn ddiddorol clywed Sefydliad Heddwch Fflandrys yn dweud y cafwyd trafodaeth fawr cyn i'r sefydliad gael ei sefydlu ynghylch a ddylai fod yn rhan o'r Llywodraeth neu ar hyd braich wrth y senedd a'i fod yn teimlo mai'r peth iawn oedd i'w wneud yn bartner yn y senedd.[16]

29. Roedd amhleidioldeb gwleidyddol yn arbennig o bwysig i Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt. Roedd yn pwysleisio hyn, yn enwedig mewn maes gwleidyddol dadleuol.[17] Dywedodd

> "The initial closeness of PRIF to a social democratic government made us suspicious with the Conservatives as a leftist project, and we had to struggle with that suspicion well in to the latter half of the eighties."[18]

30. Dywedodd Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt ei fod wedi goresgyn hyn drwy strategaeth ddwbl[19] o fod yn weithredol o ran cysylltu â gwleidyddion ceidwadol blaenllaw ac arddangos rhagoriaeth academaidd. Arweiniodd y ddau lwybr hyn at sefyllfa lle mae'r holl bleidiau yn derbyn bod lle i Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt

---

[16] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [149] 23 Chwefror 2010

[17] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, PET(3)-05-10: Papur 1, Atodiad A: sesiwn dystiolaeth: Sefydliad Heddwch Catalonia, 27 Ebrill 2010

[18] Ibid

[19] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gohebiaeth gan Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt

mewn gwaith ymchwil academaidd i ddiogelwch a heddwch ac yn y drafodaeth ar bolisi yn y maes hwn.[20]

31. Wrth reswm, os bydd sefydliad heddwch yn cael ei sefydlu, rhaid gwneud hynny ar sail annibynniaeth llwyr ar y rhai a fyddai'n ei sefydlu a rhaid sicrhau na fydd ffynhonellau ariannu yn effeithio ar ei annibyniaeth.

**Cyllid**

32. Mae cyllid yn elfen hanfodol i'w hystyried wrth sefydlu sefydliad o'r fath. Roedd pob un o'r sefydliadau yn pwysleisio pwysigrwydd cyllid strwythurol. Dywedodd cyfarwyddwr Sefydliad Heddwch Fflandrys wrthym

> "On the landscape of non-governmental organisations, I see shifts from structural funding to project funding, and it always nibbles away at the quality of what they do, because they have to invest much more time in getting the money and pleasing the donors….Whether the money comes from the Executive or wherever, structural long-term funding is important, apart from the small projects that meet some needs."[21]

33. Dywedodd Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt y gellid rhoi ystyriaeth i wneud rhan o'r gyllideb yn ddibynnol ar waddoliad. Byddai hyn yn helpu i sicrhau annibynniaeth ac yn gwarchod yn erbyn dirywiad economaidd ond roedd y sefydliad yn cydnabod bod angen buddsoddiad economaidd sylweddol cyn cychwyn ac efallai na fyddai'r corff ariannu yn hapus am hyn. Roedd hefyd yn cydnabod mai dyna pam nad oedd y sefydliad yn cael ei ariannu yn y ffordd hon.[22]

34. Mae pob un o'r tri sefydliad yn cael y rhan fwyaf o'u harian neu eu holl arian (yn achos Catalonia) gan y prif gorff sy'n eu hariannu. Mae pob un ohonynt eisoes yn cael arian o ffynhonellau eraill, neu'n bwriadu gwneud hynny.

35. Mae'n anodd asesu, heb ddealltwriaeth well o rôl a swyddogaeth academi heddwch, faint y byddai academi heddwch yn ei gostio ac o le y gellid dod o hyd i gyllid i ariannu corff o'r fath. Mae'n glir o'r

---

[20] ibid
[21] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [161] 23 Chwefror 2010
[22] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, PET(3)-05-10: Papur 1, Atodiad A: sesiwn dystiolaeth: Sefydliad Heddwch Catalonia, 27 Ebrill 2010

ohebiaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru nad yw'n rhywbeth y gallai ddod o hyd iddo yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.[23]

### Manteision sy'n deillio o seneddau rhanbarthol yn sefydlu sefydliadau heddwch

36. Mae'n ddiddorol nodi y sefydlwyd pob un o'r tri sefydliad hyn gan gyrff seneddol rhanbarthol nad ydynt yn gyfrifol am y lluoedd arfog a gwariant milwrol. Mae'n hyn yn cynnig enghraifft i Gymru, oherwydd mae'r pwerau dros y filwraeth ac amddiffyn yn parhau i fod yn nwylo San Steffan. Dywedodd Sefydliad Rhyngwladol Heddwch Catalonia

> "The institute is saying that there is a way for the Catalan Government to make itself visible in international relations."[24]

37. At hynny, dywedodd Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt ei bod yn bosibl i lywodraethau a seneddau rhanbarthol sefydlu sefydliad heddwch, a'i bod yn gwneud synnwyr iddynt wneud hynny. Dywedodd

> "Even if the work of the institute is mainly directed towards the national capital, the involvement of the state government gives the institute some robustness against a central authority enraged by criticism uttered by researchers."[25]

38. Mynnodd Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Catalonia na ddylai'r wladwriaeth fonpoleiddio'r math hwn o waith a bod yn rhaid i weithredwyr nad ydynt yn rhan o'r wladwriaeth, er eu bod yn weithredwyr cyhoeddus, fod yn rhan o'r gwaith hwn.[26]

---

[23] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, PET(3)-11-10: Papur 1: Deisebau newydd a diweddariadau i ddeisebau blaenorol, 28 Medi 2010
[24] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [63] 27 Ebrill 2010
[25] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gohebiaeth gan Sefydliad Ymchwil Heddwch Frankfurt
[26] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion [34] 27 Ebrill 2010

# 5. Barn y rhanddeiliaid

39. Bu inni gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ysgrifenedig, gan ofyn am farn pobl ynghylch a ddylid sefydlu academi heddwch ac, os felly, ar ba ffurf a beth fyddai ei swyddogaethau. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth unigolion, grwpiau heddwch a chrefyddol ac, ar y cyfan, roeddent yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol. Fodd bynnag, ni wnaeth llawer ohonynt roi manylion beth hoffent i sefydliad o'r fath ei wneud.

40. Dywedodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru y byddai sefydliad heddwch yn ddymunol.[27] Dywedodd y gallai helpu i ddarparu ffynhonnell annibynnol ac awdurdodol o wybodaeth am ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.[28] Pwysleisiodd bwysigrwydd annibynniaeth a dywedodd er bod Llywodraeth y DU wedi arwyddo nifer o gytuniadau rhyngwladol sydd y tu hwnt i bwerau'r Cynulliad fod rhai o'r rhwymedigaethau rhyngwladol yn cyffwrdd ar gyfiawnder cyhoeddus a chydraddoldeb i bawb sy'n byw yng Nghymru. Roedd am i'r cylch gorchwyl gynnwys cymalau tebyg i rai Sefydliad Heddwch Fflandrys.[29]

41. Addysg Uwch Cymru oedd un o'r unig rai i ymateb a ddywedodd wrthym nad oedd yn teimlo y dylid sefydlu sefydliad o'r fath ar hyn o bryd. Dywedodd ei fod yn deall bod gan y deisebwyr ddiddordeb brwd yn agweddau ymchwil a rhyddid academaidd sefydliad o'r fath a bod y rhain yn themâu sydd eisoes wedi'u hymwreiddio ac yn themâu y mae gan brifysgolion yng Nghymru feddwl mawr ohonynt.[30]

[27] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad PET (4) WPI 41 Ymateb gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru [fel ar 9 Medi 2013]
[28] ibid
[29] ibid
[30] Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad PET (4) WPI 42 Ymateb gan Addysg Uwch Cymru [fel ar 9 Medi 2013]

## 6. Barn y Pwyllgor

42. Er bod y Pwyllgor wedi cael llawer o dystiolaeth wahanol ar y mater hwn, nid ydym yn teimlo ein bod mewn sefyllfa i ddarparu model o'r ffurf y dylai Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute ei gymryd. Fodd bynnag, ar ôl ystyriaeth y dystiolaeth, rydym yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu sefydliad heddwch yng Nghymru.

43. Mae hyn oherwydd ein bod yn teimlo y gallai corff o'r fath ychwanegu gwerth at waith y Cynulliad a chymdeithas sifil yn ehangach. Rydym yn cefnogi awgrym y deisebwyr y dylai cyrff fel Cynnal Cymru gynnig model ar gyfer sefydlu sefydliad o'r fath a sut y gallai helpu i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu polisi. Rydym yn cytuno â'r deisebwyr y dylid ystyried heddwch yn yr ystyr mwyaf eang ac er nad oes gan y Cynullaid bwerau uniongyrchol mewn perthynas â materion milwrol ac amddiffyn, dylid ystyried heddwch yn yr ystyr mwyaf eang.

44. Ar ôl gweld sut y gall hyn weithio yn y lleoedd hynny (yn enwedig yn achos Catalonia) lle nad yw cyfrifoldeb dros faterion milwrol ac amddiffyn wedi'i ddatganoli, rydym yn teimlo bod dadl gref o blaid Cymru'n chwarae rôl flaenllaw ac yn cael rhyw fath o sefydliad heddwch a allai ystyried materion sy'n ymwneud ag heddwch yn fwy manwl.

45. Hefyd, er bod llawer o waith yn cael ei wneud yng Nghymru ar heddwch, mae dadleuon y deisebwyr wedi ein darbwyllo bod angen i'r gwaith hwn gael ei ddwyn ynghyd a'i anfon i'r gynulleidfa fwyaf posibl a bod angen ymgysylltu'n ehangach â chymdeithas sifil.

46. Rydym yn credu bod angen gwneud gwaith ymchwil pellach yn y maes hwn. Rydym yn deall bod y deisebwyr yn credu y dylai'r Pwyllgor fod yn gwneud hyn ond mae y tu hwnt i'n maes arbenigedd ac, yn syml, nid oes gennym y capasiti i ymgymryd â'r gwaith. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r deisebwyr y dylid gwneud y gwaith hwn. Rydym yn cydnabod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r cyfyngiadau ariannol ar draws y sector gyhoeddus. Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith efallai nad oes ffynhonellau ariannol digonol ar gael i Lywodraeth Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau pellach â'r rhanddeiliaid, yn enwedig rhwng y gymuned academaidd a chymdeithas sifil, i helpu

i hyrwyddo'r broses o ddatblygu cynigion ar gyfer Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau pellach rhwng rhanddeiliaid o fewn y gymuned academaidd a chymdeithas sifil i sicrhau y gellid gwneud gwaith cwmpasu pellach ar Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute.**

## Cyfarfodydd

Trafodwyd y ddeiseb yn y cyfarfodydd a ganlyn yn ystod y Trydydd Cynulliad a'r Cynulliad presennol. Mae trawsgrifiadau o'r cyfarfodydd a'r ohebiaeth a drafodwyd yn y cyfarfod ar gael yn llawn yn:

| | |
|---|---|
| Y Trydydd Cynulliad | http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-262.htm |
| Y Pedwerydd Cynulliad | http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=0918 |

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth yn llawn yn [www.assemblywales.org/cy/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-262.htm](www.assemblywales.org/cy/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-262.htm)

*23 Chwefror 2013*

| | |
|---|---|
| Dr John Cox | CND Cymru |
| Jill Evans ASE | |
| Tomas Baum | Cyfarwyddwr Sefydliad Heddwch Fflandrys |
| Nellie Maes | Llywydd Sefydliad Heddwch Fflandrys |

*27 Ebrill 2010*

| | |
|---|---|
| Pablo Aguiar | Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Catalonia |
| Tica Font | Cyfarwyddwr Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Catalonia |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i ymgynghoriad y Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoraid yn [http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=0918](http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=0918)

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Darren Millar | PET(4) WPI 01 |
| Nia Rhosier | PET(4) WPI 02 |
| Cymdeithas y Cymod | PET(4) WPI 03 |
| Angharad Roberts | PET(4) WPI 04 |
| Ifanwy Williams | PET(4) WPI 05 |
| Rhys ab Elis | PET(4) WPI 06 |
| Cymdeithas Cenhedloedd Unedig Caerdydd a'r Cylch | PET(4) WPI 07 |
| Uniting for Peace | PET(4) WPI 08 |
| Dr Peter Sutch | PET(4) WPI 09 |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | PET(4) WPI 10 |
| Edwin C Lewis | PET(4) WPI 11 |
| Guto Prys ap Gwynfor | PET(4) WPI 12 |
| Cymrodoriaeth Heddwch y Methodistiaid | PET(4) WPI 13 |
| Ieuan Davies | PET(4) WPI 14 |
| Mr H.O. Phillips | PET(4) WPI 15 |
| Marc Pollentine | PET(4) WPI 16 |
| Philip Kingston | PET(4) WPI 17 |
| Elizabeth Morley | PET(4) WPI 18 |
| Hedd Ladd-Lewis | PET(4) WPI 19 |
| Lynne a Trefor Williams | PET(4) WPI 20 |
| Maria Pizzoni | PET(4) WPI 21 |
| Cyfarfod Crynwyr Caerllion | PET(4) WPI 22 |
| Stella Westmacott | PET(4) WPI 23 |

| | |
|---|---|
| Peace Mala | PET(4) WPI 24 |
| Mari Hobbs | PET(4) WPI 25 |
| Palestine Community Link | PET(4) WPI 26 |
| Tudur Dylan Jones | PET(4) WPI 27 |
| Jennifer Harwood | PET(4) WPI 28 |
| Mererid Hopwood | PET(4) WPI 29 |
| Y Parchedig Dr Owen E. Evans | PET(4) WPI 30 |
| Heather Jordan | PET(4) WPI 31 |
| CND Cymru | PET(4) WPI 32 |
| Dr Lillian Parry-Jones | PET(4) WPI 33 |
| M. Islwyn Lake | PET(4) WPI 34 |
| Dorothy Wilson | PET(4) WPI 35 |
| Plaid Werdd Cymru | PET(4) WPI 36 |
| Brian Jones | PET(4) WPI 37 |
| Cyfarfod y Cyfeillion (Crynwyr) yng Nghymru | PET(4) WPI 38 |
| Tony Young | PET(4) WPI 39 |
| Canolfan Morlan | PET(4) WPI 40 |
| Cyngor Ffoaduriaid Cymru | PET(4) WPI 41 |
| Addysg Uwch Cymru | PET(4) WPI 42 |
| Norbert X Mbu-Mputu | PET(4) WPI 43 |
| Awel Jones | PET(4) WPI 44 |
| Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd | PET(4) WPI 45 |
| Jill Evans ASE | PET(4) WPI 46 |
| Adran yr Eglwys a Chymdeithas, Eglwys Bresbyteraidd Cymru | PET(4) WPI 47 |
| Brahma Kumaris World Spiritual University UK | PET(4) WPI 48 |
| Elin Tudur | PET(4) WPI 49 |
| Nicholas Jewitt | PET(4) WPI 50 |
| Lynette Hughes | PET(4) WPI 51 |
| Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru | PET(4) WPI 52 |
| Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Brycheiniog | PET(4) WPI 53 |

| | |
|---|---|
| Phillip Steele | PET(4) WPI 54 |
| Grŵp Heddwch Sir Conwy | PET(4) WPI 55 |
| Julie Gritten | PET(4) WPI 56 |
| Elenid Jones | PET(4) WPI 57 |
| Stephen Thomas | PET(4) WPI 58 |